**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyllid

# Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2015-16

Hydref 2014

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.senedd.cynulliadcymru.org**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8120
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: PwyllgorCyllid@cymru.gov.uk
Twitter: @SeneddCyllid

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2014
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyllid

# Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2015-16

Hydref 2014

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Y Pwyllgor Cyllid**

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2011. Rôl y Pwyllgor Cyllid yw gweithredu'r swyddogaethau a nodir yn Rheol Sefydlog 19. Mae hyn yn cynnwys ystyried unrhyw ddefnydd ar adnoddau gan Gomisiwn y Cynulliad neu Weinidogion Cymru, ac yn benodol cyflwyno adroddiad yn ystod cylch blynyddol y gyllideb. Gall y Pwyllgor hefyd ystyried unrhyw fater arall sy'n ymwneud â gwariant o Gronfa Gyfunol Cymru.

Mae eu cylch gwaith hefyd yn cynnwys pwerau statudol penodol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 sy'n ymwneud â chyfrifoldebau newydd i oruchwylio materion llywodraethau Swyddfa Archwilio Cymru.

**Aelodau cyfredol y Pwyllgor**



**Jocelyn Davies (Cadeirydd)**
Plaid Cymru
Dwyrain De Cymru



**Christine Chapman**
Llafur Cymru
Cwm Cynon



**Nick Ramsay**
Ceidwadwyr Cymreig
Mynwy



**Mike Hedges**
Llafur Cymru
Dwyrain Abertawe



**Alun Ffred Jones**
Plaid Cymru
Arfon



**Ann Jones**
Llafur Cymru
Dyffryn Clwyd



**Julie Morgan**
Llafur Cymru
Gogledd Caerdydd

Oherwydd ei gyfrifoldebau fel un o Gomisiynwyr y Cynulliad, roedd Peter Black AC yn Absennol o holl gyfarfodydd y Pwyllgor pan oedd Comisiwn y Cynulliad yn trafod Cyllideb Ddraft 2015-16.



**Peter Black**
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Gorllewin De Cymru

## Cynnwys


**Argymhellion y Pwyllgor** ..... **5**

**Cyflwyniad** ..... **6**

Pwy ydym ni ..... 6

Beth yw Comisiwn y Cynulliad ..... 6

Beth yw cyllideb ddrafft Comisiwn y Cynulliad? ..... 6

Pam y gwnaethom graffu ar y gyllideb ddrafft hon? ..... 7

Sut y gwnaethom graffu ar y gyllideb ddrafft hon? ..... 8

**1. Cyllideb gyffredinol Comisiwn y Cynulliad** ..... **9**

**2. Fforddiadwyedd** ..... **10**

Adolygiad o Gofnod y Trafodion ..... 10

**3. Blaenoriaethu** ..... **11**

Blaenoriaethau Comisiwn y Cynulliad ..... 11

Buddsoddi mewn TGCh ..... 11

Ymgysylltu â phobl ifanc ..... 12

**4. Gwerth am arian** ..... **13**

Tŷ Hywel ..... 13

**5. Proses** ..... **15**

**Tystion** ..... **16**

## Argymhellion y Pwyllgor

Mae argymhellion y Pwyllgor i Gomisiwn y Cynulliad i'w gweld isod, yn y drefn y maent yn ymddangos yn yr Adroddiad hwn. Cyfeiriwch at y tudalennau perthnasol yn yr adroddiad i weld y dystiolaeth a chasgliadau ategol:

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Comisiwn yn cyhoeddi manylion yr amcangyfrif o'r costau cyn-etholiad ar gyfer 2015-16 er mwyn gwella tryloywder ac argaeledd gwybodaeth. (Tudalen 9)

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y wybodaeth ddiweddaraf am Ddangosyddion Perfformiad Allweddol Comisiwn y Cynulliad yn cael eu cyhoeddi ar yr un pryd â cyllideb ddrafft y Comisiwn er mwyn caniatáu ar gyfer gwaith craffu llawnach. (Tudalen 11)

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Cynulliad yn ystyried opsiynau ar gyfer defnyddio'r cymhorthdal teithio ar gyfer teithio ar y trên hefyd er mwyn sicrhau'r gwerth gorau am arian. (Tudalen 12)

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Cynulliad yn parhau i chwilio am gyfleoedd i brynu rhydd-ddaliad Tŷ Hywel, ac oherwydd nad oes gan Gomisiwn y Cynulliad y pwerau benthyg gofynnol, rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru roi ystyriaeth ddifrifol i hwyluso'r pryniant. (Tudalen 14)

**Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Cynulliad yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ynghylch cynllunio ar gyfer y Pumed Cynulliad, yn arbennig o ran cynllunio ar gyfer ymdrin â'r pwerau ariannol newydd. (Tudalen 15)

# 1. Cyflwyniad

**Pwy ydym ni?**

1. Mae'r Pwyllgor yn un o bwyllgorau trawsbleidiol Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n cynnwys Aelodau o bob un o'r pedair plaid wleidyddol a gynrychiolir yn y Cynulliad.

2. Nid yw'r Pwyllgor yn rhan o Lywodraeth Cymru. Yn hytrach, mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am lunio adroddiad ar gynigion a gaiff eu gosod gerbron y Cynulliad gan Weinidogion Cymru sy'n ymwneud â defnyddio adnoddau. Gall y Pwyllgor hefyd ystyried unrhyw fater arall sy'n ymwneud â gwariant o Gronfa Gyfunol Cymru neu sy'n effeithio ar wariant o'r gronfa honno, a chyflwyno adroddiad ar yr ystyriaethau hynny.

**Beth yw Comisiwn y Cynulliad?**

3. Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

4. Yn ei ddogfen cyllideb ei hun, mae Comisiwn y Cynulliad yn disgirfio ei hun fel a ganlyn:

> "Mae Comisiwn y Cynulliad yn gwasanaethu'r Cynulliad Cenedlaethol i helpu i'w wneud yn sefydliad democrataidd cryf, hygyrch a blaengar ac yn ddeddfwrfa sy'n cyflawni'n effeithiol ar gyfer pobl Cymru."[1]

**Beth yw cyllideb ddrafft Comisiwn y Cynulliad?**

5. Mae Rheol Sefydlog 20.13 Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn nodi:

> "Heb fod yn hwyrach na 1 Hydref ym mhob blwyddyn ariannol, rhaid i un o aelodau'r Comisiwn osod gerbron y Cynulliad gyllideb ddrafft ar gyfer y Comisiwn sy'n nodi'r symiau o adnoddau ac arian parod y mae'r Comisiwn yn bwriadu eu defnyddio ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol a darpar symiau ar gyfer y ddwy flynedd ddilynol neu ar gyfer unrhyw

[1] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cyllideb ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2015-2016, tudalen 6

> gyfnod arall y mae’r Comisiwn wedi cytuno arno gyda Gweinidogion Cymru."[2]

6. Y Pwyllgor Cyllid sy'n gyfrifol am lunio adroddiad ar y gyllideb ddrafft hon.

**Pam y gwnaethom graffu ar y gyllideb ddrafft hon?**

7. Mae Rheol Sefydlog 20.14 yn nodi bod yn rhaid i’r pwyllgor cyfrifol (sef y Pwyllgor Cyllid yn yr achos hwn) ystyried cyllideb ddrafft y Comisiwn a chyflwyno adroddiad i’r Cynulliad amdani heb fod yn hwyrach na thair wythnos ar ôl iddi gael ei gosod gerbron y Cynulliad.

8. Mae'r gwaith craffu hwn yn bwysig, gan fod Comisiwn y Cynulliad yn cael arian cyhoeddus a, chan hynny, mae'n bwysig ei fod yn sicrhau'r gwerth gorau posibl am arian. Mae'r broses o graffu'n fanwl ar gynigion cyllideb y Comisiwn yn ddull allweddol o gadarnhau a yw'n gwneud hynny.

9. Mae Comisiwn y Cynulliad hefyd yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau seneddol i safon ragorol. Felly, mae'n chwarae rhan bwysig yn y gwaith o sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cael ei dwyn i gyfrif yn ddemocrataidd.

10. Yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad hwn ar gyllideb ddrafft Comisiwn y Cynulliad, mae Rheol Sefydlog 20.16 yn nodi:

> "Rhaid i un o aelodau’r Comisiwn gyflwyno cynnig y dylid cytuno ar y gyllideb a osodir o dan Reol Sefydlog 20.15 a’i hymgorffori yn y cynnig cyllideb blynyddol o dan Reol Sefydlog 20.26(ii). Ni chaniateir cyflwyno gwelliant i’r cynnig a rhaid i’r cynnig gael ei drafod cyn pen pum diwrnod gwaith ar ôl iddo gael ei gyflwyno (heb gyfrif dyddiau gwaith mewn wythnos pan na fydd y Cynulliad yn eistedd)."[3]

11. Cam olaf y broses yw cynnig y gyllideb derfynol (neu gynnig y gyllideb flynyddol), fel sy'n ofynnol o dan Adran 125 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*. Mae *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* yn darparu y dylai o leiaf un cynnig cyllideb (sef cynnig y gyllideb

---

[2] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Rheol Sefydlog 20.13

[3] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Rheol Sefydlog 20.16

flynyddol) gael ei wneud mewn cysylltiad â phob blwyddyn ariannol. Caiff hwn ei drafod yn y Cynulliad.

**Sut y gwnaethom graffu ar y gyllideb ddrafft hon?**

12. Trafodwyd Cyllideb Ddrafft Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer 2015-16 yn ein cyfarfod ar 2 Hydref 2014.

13. Yn y cyfarfod hwn, clywsom dystiolaeth gan:

- Y Fonesig Rosemary Butler AC, Llywydd y Cynulliad a Chadeirydd Comisiwn y Cynulliad;
- Claire Clancy, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad; a
- Nicola Callow, y Cyfarwyddwr Cyllid.

14. Cafwyd ymddiheuriadau gan Angela Burns, y Comisiynydd sydd â chyfrifoldeb dros gyllideb y Comisiwn.

15. Mae ein hadroddiad wedi'i strwythuro o amgylch pedair egwyddor craffu ariannol:

- Fforddiadwyedd
- Blaenoriaethu
- Gwerth am arian
- Proses y gyllideb

## 2. Cyllideb gyffredinol Comisiwn y Cynulliad

16. Gwnaeth Comisiwn y Cynulliad (y Comisiwn) gais am £50.9 miliwn yng nghyllideb ddrafft 2015-16, o'i gymharu â'r £50.6 miliwn yn 2014-15. Mae hyn yn gynnydd o £0.3 miliwn neu 0.6 %, o'i gymharu â Bloc Cymru, y disgwylir iddo gynyddu 0.8% yn 2015-16.

17. Mae'r gyllideb ddrafft yn gwyro oddi wrth yr amcangyfrif dros dro a nodwyd y llynedd drwy gynnwys £500,000 yn ychwanegol ar gyfer treuliau cyn-etholiad a chynnydd o £400,000 o wariant a reolir yn flynyddol (AME).

18. Roedd y cynnydd o £400,000 yn y gwariant a reolir yn flynyddol yn ymwneud ag addasiadau cyfrifyddu heb fod yn arian parod mewn cysylltiad â Chynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Hysbyswyd hyn yng nghyllideb atodol y Comisiwn ym mis Mehefin 2014.[4]

19. Nododd y Pwyllgor fod cais cyllideb ddrafft y Comisiwn ar gyfer 2015-16 ar y cyfan yn unol â'r amcangyfrifon dros dro ers y llynedd. Nododd y Pwyllgor hefyd mai dyma'r flwyddyn gyntaf i'r Comisiwn beidio â gwneud cais am gynnydd a oedd yn uwch nag unrhyw neiwdiadau i Floc Cymru, gan ei fod, bellach, wedi cwblhau'r rhaglen fuddsoddi dair blynedd a nodwyd yng Nghyllideb Derfynol y Comisiwn 2012-13.

20. Nododd y Pwyllgor fod y ffigur o £500,000 ar gyfer treuliau cyn-etholiad wedi cael ei glustnodi a'i fod yn seiliedig ar brofiadau yn deillio o etholiadau blaenorol. Roedd y Pwyllgor o'r farn y byddai'n ddefnyddiol i fanylion o amcangyfrif y costau gael eu cyhoeddi er mwyn nodi ble y caiff yr arian ei wario.

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Comisiwn yn cyhoeddi manylion yr amcangyfrif o'r costau cyn-etholiad ar gyfer 2015-16 er mwyn gwella tryloywder ac argaeledd gwybodaeth.**

[4] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Comisiwn y Cynulliad, Cyllideb Atodol 2013-14

# 3. Fforddiadwyedd

21. Mae cyllideb ddrafft y Comisiwn ar gyfer 2015-16 yn cynnwys gostyngiad yn dilyn cyfnod o fuddsoddi parhaus. Gofynnodd y Pwyllgor i'r Comisiwn a oedd y sefydliad yn barod am y gostyngiad hwn mewn adnoddau. Cadarnhawyd inni bod hyn wedi cael ei ystyried yn y gwaith cynllunio hirdymor ar gyfer y Comisiwn a bod cryn waith ymgynghori â'r staff ynghylch y cyllidebau arfaethedig wedi cael ei wneud. Dywedodd Claire Clancy wrth y Pwyllgor:

> "I do not think that it will be a barrier in the coming year because, as the Presiding Officer has said, from the beginning, in 2011, we have known that this is the journey that we would be on, and that there would be years of investment. We let the staff know all about the budget plans going forward, so, for example, earlier this year, there was an all-staff meeting, and we talk about the budget not just for the current year, but for future years, so there has been a high level of awareness of the budgets to come."[5]

**Adolygiad o Gofnod y Trafodion**

22. Bu'r Pwyllgor yn holi'r Comisiwn ynghylch yr adolygiad o Gofnod y Trafodion, y disgwylir adroddiad arno yn ystod Gwanwyn 2015, ac a yw'r gyllideb yn cynnig digon o hyblygrwydd i ymateb i'r argymhellion. Croesawodd y Pwyllgor y sicrwydd bod hyn wedi cael ei ystyried, a hoffem annog y Comisiwn i weithredu newidiadau fel gwneud cais am nodiadau siarad cyn gynted â phosibl gan Aelodau'r Cynulliad ar ôl cyfrannu at ddadleuon er mwyn canfod unrhyw arbedion posibl y gallai newidiadau o'r fath eu darparu.

[5] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Hydref 2014, paragraff 11

# 4. Blaenoriaethu

## Blaenoriaethau Comisiwn y Cynulliad

23. Trafododd y Pwyllgor gyda'r Comisiwn y gwaith o ailflaenoriaethu nodau'r Cynulliad i gyfrif am yr amcangyfrif hwn. Nododd y Comisiwn ei fod wedi cynnal nifer o drafodaethau strategaeth, a'i fod wedi ceisio bodloni ei Ddangosyddion Perfformiad Allweddol (KPI). Amlinellodd y Llywydd fod y rhain yn agored i gael eu herio ym mhob un o gyfarfodydd y Comisiwn, ac y cânt eu gwerthuso i ganfod a gawsant eu cyflawni ar ddiwedd y Cynulliad.

24. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r sicrwydd y bydd y nodau hyn yn destun gwerthusiad. Pan gyhoeddwyd y gyllideb ddrafft, roedd gwybodaeth ddiweddaraf y Comisiwn ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol yn ymwneud â'r cyfnod a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2014. Barn y Pwyllgor yw y byddai'n ddefnyddiol cael y sefyllfa fwy diweddar o ran y Dangosyddion hyn pan gyhoeddir y gyllideb ddrafft.

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y wybodaeth ddiweddaraf am Ddangosyddion Perfformiad Allweddol Comisiwn y Cynulliad yn cael eu cyhoeddi ar yr un pryd â cyllideb ddrafft y Comisiwn er mwyn caniatáu ar gyfer gwaith craffu llawnach.**

## Buddsoddi mewn TGCh

25. Holodd y Pwyllgor y Comisiwn am y costau datblygu TGCh a'r potensial ar gyfer arbedion pellach yn y maes hwn.

26. Roedd y Pwyllgor yn croesawu'r sicrwydd gan y Comisiwn ei fod yn ystyried gwneud mân arbedion i'r TGCh, fel newid i slipiau cyflog electronig. Cred y Pwyllgor y gallai'r mân arbedion hyn arwain at arbedion mwy sylweddol yn y tymor hir.

27. Cred y Pwyllgor y dylai'r Comisiwn sicrhau ei fod yn bwrw ymlaen â darparu gwasanaeth pwrpasol i'r Aelodau o ran datblygu TGCh, ac yn arbennig o ran trafod anghenion Aelodau cyn caffael er mwyn ceisio sicrhau ei fod yn darparu yr hyn sydd ei angen. Roedd y Pwyllgor o'r farn y byddai hyn yn sicrhau bod y gwerth gorau yn cael ei gyflawni o ran gwariant.

**Ymgysylltu â phobl ifanc**

28. Holodd y Pwyllgor y Comisiwn ynghylch y gwaith sy'n cael ei wneud i ddileu'r rhwystrau rhag caniatáu i ysgolion o'r tu allan i dde Cymru ymweld â'r Cynulliad.

29. Nododd y Pwyllgor fod nifer o welliannau wedi cael eu gwneud o ran ardal ddaearyddol yr ysgolion a ddaw ar ymweliadau, a chroesawyd y gwaith a gaiff ei wneud i ymgysylltu â phobl ifanc ar-lein hefyd.

30. Croesawodd y Pwyllgor y bydd y cymhorthdal tuag at gostau teithio i ysgolion cymwys sy'n ymweld â'r Senedd ar ymweliadau addysg a drefnir yn aros, a'i fod yn ymatebol o ran nifer y ceisiadau a wneir. Awgrymodd y Pwyllgor y gallai'r Comisiwn archwilio opsiynau ar gyfer caniatáu i'r cymhorthdal gael ei ddefnyddio ar gyfer teithio ar y trên hefyd, gan y gallai hyn fod yn fwy ymarferol mewn rhai achosion, a gallai helpu i gyfrannu at dargedau cynaliadwyedd.

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Cynulliad yn ystyried opsiynau ar gyfer defnyddio'r cymhorthdal teithio ar gyfer teithio ar y trên hefyd er mwyn sicrhau'r gwerth gorau am arian.**

# 5. Gwerth am arian

31. Nododd y Pwyllgor fod y Comisiwn newydd gwblhau cynllun buddsoddi tair blynedd, ac roedd yn croesawu bod y dangosyddion cychwynnol o'r rhaglen hon yn dangos gwelliannau.

32. Holodd y Pwyllgor y Comisiwn am ei strategaeth ar gyfer cyrraedd y targed arbedion o £500,000. Croesawodd y Pwyllgor yr ateb llawn a roddodd y Comisiwn, yn nodi ei ddull o gyflawni arbedion, a bod awydd i gynyddu'r ganran a gyflawnir drwy arbedion rheoli nad ydynt yn gysylltiedig â swyddi gwag, a ddylai fod yn fwy cynaliadwy yn y tymor hir.

**Tŷ Hywel**

33. Trafododd y Pwyllgor gyda'r Comisiwn y posibilrwydd o brynu Tŷ Hywel (yr adeilad o swyddfeydd yng nghefn y Senedd), ac a gaiff ei brydlesu ar hyn o bryd gan y Comisiwn ar brydles atgyweirio ac yswiriant lawn, ac sydd angen rhaglen gynnal a chadw sylweddol arno. Esboniodd y Comisiwn ei fod wedi cyflwyno cynnig yn y gorffefnnol i Lywodraeth Cymru, wedi'i gostio, a oedd yn nodi'r achos gwerth am arian dros brynu Tŷ Hywel, ond nid oedd y rhain wedi cael eu datblygu.

34. Amlinellodd Nicola Callow, y Cyfarwyddwr Cyllid, ffeithiau o ran ad-dalu gwerth prynu Tŷ Hywel:

> "The last business case that we put together showed that, as we approached the teens and 20-year mark, we would see a complete pay-back. "The last business case that we put together showed that, as we approached the teens and 20-year mark, we would see a complete pay-back. So, you can imagine a 20-year pay-back on a building that has a life in excess of 65 or 85 years—and you could argue indefinite life with the value of the maintenance and the type of work that we do to ensure that the building is kept up to standards."[6]

35. Gan ystyried y gwariant presennol ar rent, a'r amserlen bosibl ar gyfer ad-dalu'n llawn, mae'r Pwyllgor o'r farn bod gan y Comisiwn achos cryf dros brynu Tŷ Hywel. Credwn fod pryniant o'r fath yn cydfynd â'r model buddsoddi i arbed a gaiff ei hyrwyddo gan

[6] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Hydref 2014, paragraff 106

Lywodraeth Cymru.  Hoffem gynnig ein cefnogaeth i'r Comisiwn mewn ymdrechion yn y dyfodol i brynu Tŷ Hywel.

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Cynulliad yn parhau i chwilio am gyfleoedd i brynu rhydd-ddaliad Tŷ Hywel, ac oherwydd nad oes gan Gomisiwn y Cynulliad y pwerau benthyg gofynnol, rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru roi ystyriaeth ddifrifol i hwyluso'r pryniant.**

## 6. Proses

36. Archwiliodd y Pwyllgor gyda'r Comisiwn a oedd unrhyw waith cynllunio capasiti wedi cael ei wneud mewn perthynas â datganoli rhagor o bwerau cyllidol i Gymru.

37. Cadarnhaodd y Llywydd wrth y Pwyllgor ei bod wedi gofyn i'r Prif Weithredwr a'r Clerc ddechrau ystyried y materion hyn a rhoi pecyn at ei gilydd yn nodi:

> "…what it would actually mean if we had more Members in terms of the capacity of the building, additional staff, office space and a whole range of things."[7]

38. Mae'r Pwyllgor yn croesawu bod y Comisiwn wedi dechrau ystyried y materion hyn a byddai'n annog bod unrhyw ystyriaethau yn sicrhau y bydd digon o amser ac adnoddau ar gael i graffu yn llawn ar gynlluniau gwariant, benthyca a threthu Llywodraeth Cymru yn y dyfodol, yn ogystal ag unrhyw ddeddfwriaeth ariannol gysylltiedig, gan y bydd hyn yn newid sylweddol yn y Pumed Cynulliad.

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Cynulliad yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ynghylch cynllunio ar gyfer y Pumed Cynulliad, yn arbennig o ran cynllunio ar gyfer ymdrin â'r pwerau ariannol newydd.**

[7] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Hydref 2014, paragraff 119

## Tystion

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth yn llawn yn www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=1243

*2 Hydref 2014*

| | |
|---|---|
| Y Fonesig Rosemary Butler AC | Llywydd y Cynulliad a Chadeirydd Comisiwn y Cynulliad |
| Claire Clancy | Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad |
| Nicola Callow | Cyfarwyddwr Cyllid, Cynulliad Cenedlaethol Cymru |